# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 10 Hydref 2013 i'w hateb ar 15 Hydref 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Nick Ramsay (Mynwy)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella addysg alwedigaethol? OAQ(4)1264(FM)

2. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb i bennu polisi'r llywodraeth? OAQ(4)1268(FM)

3. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi darpariaeth addysg yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1262(FM)

4. **Lynne Neagle (Torfaen)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr Adolygiad ar Ddarpariaeth Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru? OAQ(4)1274(FM)

5. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella amseroedd aros am driniaeth y GIG? OAQ(4)1261(FM)

6. **Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi twristiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1275(FM)

**7. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cymryd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â recriwtio staff meddygol yn GIG Cymru? OAQ(4)1276(FM)

**8. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd Mynyddoedd Cambria i Gymru? OAQ(4)1266(FM)

**9. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ymateb i gynlluniau arfaethedig Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gau canolfannau ymholiadau yng Nghymru? OAQ(4)1271(FM)

**10. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi busnesau bach a chanolig yng Nghwm Cynon? OAQ(4)1267(FM)

**11. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i wneud Undebau Credyd Cymru yn gynaliadwy? OAQ(4)1263(FM)

**12. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i amddiffyn pobl rhag benthyca ar garreg drws a'r cyfraddau llog uchel sy'n gysylltiedig â hynny? OAQ(4)1260(FM)

**13. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i wella cyfleoedd economaidd yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)1273(FM)

**14. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru parthed masnachfraint rheilffyrdd Cymru yn 2018? OAQ(4)1269(FM)**W**

**15. David Rees (Aberafan):** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer economi Aberafan dros weddill tymor y Pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)1277(FM)